Bwrdd Busnes Asiantaeth Tŷ'r Cwmnïau – Cofnodion Cryno - 18 Tachwedd 2009

Cerdyn Sgorio Busnes Tŷ'r Cwmnïau (gan gynnwys y diweddaraf ar y Gweithgor Perchnogaeth Gwasanaethau)
Adolygodd y Bwrdd y cerdyn sgorio busnes, gan fesur perfformiad yn erbyn y targedau a nodi cynnydd yn erbyn y rhestr o eitemau i'w gwireddu. Parhaodd y Bwrdd i adolygu'r Ddeddf Cwmnïau newydd (CAP) ac unrhyw faterion sydd heb eu datrys.

Model Cynllunio Baich Gwaith
Cytunodd y Bwrdd ar gylch gorchwyl ar gyfer y model cynllunio baich gwaith gan argymell bod y gweithgor yn cyfarfod bob yn ail fis.

Risgiau Critigol Bwrdd Busnes yr Asiantaeth
Adolygodd y Bwrdd y risgiau a gyflwynwyd.

Targedau o ran Baich Gwaith
Trafododd y Bwrdd y canlyniadau a gyflwynwyd, a nodwyd bod y Gofrestr wedi parhau i dyfu am y chweched mis yn olynol.

Cerdyn Sgorio e-Ffeilio
Nododd y Bwrdd y cerdyn sgorio a gyflwynwyd. Lefel manteisio cyffredinol mis Hydref oedd 63%, oedd ymhell y tu hwnt i'r record flaenorol o 53%.

Targedau Cyhoeddus Tŷ'r Cwmnïau 2009/10
Nododd y Bwrdd y canlyniadau a gyflwynwyd.

CH Connect
Trafododd y Bwrdd yr offeryn cyfathrebu mewnol newydd a'r manteision y byddai'n eu dwyn i'r busnes.

Partneriaethau Busnes AD
Trafododd y Bwrdd y cysyniad newydd o gyflwyno Partneriaid Busnes AD.

Targedau Bonws
Trafododd y Bwrdd yr egwyddorion arweiniol a chytunwyd bod angen symleiddio'r broses.

Unrhyw Fusnes Arall – Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau Swyddfa
Cytunodd y Bwrdd bod angen sefydlu canllawiau ar gyfer pob swyddfa er mwyn eglurhau'r gweithdrefnau.

Ysgrifenyddiaeth
Tachwedd 2009